Carcharorion a budd-daliadau

Pan ydych yn mynd i'r carchar

Os oeddech yn hawlio budd-daliadau cyn i chi fynd i'r carchar, mae'n rhaid i chi ddweud wrth bwy bynnag oedd yn eu rhoi i chi eich bod yn y carchar. Hefyd, os oeddech ar remand ac yn cael eich dyfarnu'n euog, mae'n rhaid i chi ddweud wrthynt am hyn. Yn dibynnu ar ba fudd-daliadau oeddech yn eu cael, cysylltwch â:

- yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)
- y cyngor, os oeddech yn cael Budd-dal Tai neu Fudd-dal y Dreth Gyngor
- Chyllid a Thollau EM, os oeddech yn cael Credyd Treth Gwaith, Credyd Treth Plant, Budd-dal Plant neu Lwfans Gwarcheidwad.

Os nad ydych yn dweud wrthynt am y newid yn eich amgylchiadau, mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi dalu arian yn ôl yn hwyrach. Gallwch ddweud wrthynt yn ysgrifenedig neu dros y ffôn. Cadwch gopi o'r llythyr neu'r nodiadau o'ch galwad ffôn.

Pan ydych yn mynd i'r carchar, mae'n bosib y byddwch yn gallu hawlio budd-daliadau am y cyfnod cyn i chi fynd i'r carchar. Neu os oes budd-daliadau yn ddyledus, mae'n bosib y gallwch gael yr arian yn ôl. Mae yna derfyn amser ar gyfer hawlio felly mynnwch gyngor cyn gynted â phosib. Os ydych yn oedi, mae'n bosib na chewch eich arian.

Pan ydych yn y carchar

Cymorth gyda chostau'r cartref
Mae'n bwysig iawn eich bod yn cael cyngor ynglŷn â sut i hawlio cymorth ariannol gyda chostau'r cartref oherwydd fel arall gallech golli eich cartref. **Os na ddyfarnwyd chi'n euog eto**, mae'n bosib y gallwch gael Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor ar gyfer eich cartref. Telir y budd-daliadau hyn hyd at 52 wythnos cyn belled â'i fod yn annhebygol y byddwch i ffwrdd o'ch cartref am 52 wythnos a'ch bod yn dychwelyd adref ar ôl cael eich rhyddhau o'r carchar. Mae'n bosib y gallwch gael Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Pensiwn i'ch helpu i dalu'r llog ar eich morgais os oeddech yn derbyn cymorth cyn i chi fynd i'r carchar. Gellir talu'r budd-daliadau hyn hyd at 52 wythnos.

Os dyfarnwyd chi'n euog, mae'n bosib gallwch gael Budd-dal Tai neu Fudd-dal y Dreth Gyngor. Gellir eu talu hyd at 3 wythnos cyn belled â'i fod yn annhebygol y byddwch i ffwrdd o'ch cartref am fwy na 3 wythnos a'ch bod yn dychwelyd i'ch cartref ar ôl cael eich rhyddhau o'r carchar.

Cymorth gyda chostau plant
P'un ai eich bod yn garcharor a ddyfarnwyd yn euog neu beidio, mae'n bosib y gallwch gael Budd-dal Plant mewn rhai amgylchiadau. Os yw eich plentyn yn byw yn y carchar gyda chi, gallwch gael Budd-dal Plant ar gyfer y plentyn. Fodd bynnag, ni fyddwch yn cael Budd-dal Plant os yw'r plentyn yn byw gyda rhywun arall a bod y person hwnnw yn cael Budd-dal Plant.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Budd-daliadau ar gyfer salwch, anabledd a mamolaeth
Os na ddyfarnwyd chi'n euog eto, ni roddir rhai budd-daliadau fel Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, Budd-dal Analluogrwydd, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau, Lwfans Gweini, Lwfans Byw i'r Anabl a Lwfans Mamolaeth pan ydych yn mynd i'r carchar. Mae hyn yn golygu na chewch yr arian tra'ch bod yn y carchar. Fodd bynnag, os na chewch eich dyfarnu'n euog, bydd yr holl daliadau yn cael eu hôl-ddyddio a byddwch yn derbyn cyfandaliad pan gewch eich rhyddhau o'r carchar. Bydd Tâl Mamolaeth Statudol neu Dâl Salwch Statudol oedd eich cyflogwr yn eich talu yn stopio pan fyddwch yn mynd i'r carchar.

Os dyfarnwyd chi'n euog, mae'n bosib byddwch am gadw eich hawl i dderbyn Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol. Ni fyddwch yn cael yr arian tra'ch bod yn y carchar. Fodd bynnag, byddwch yn cael hyd at 12 mis o daliadau wedi'u hôl-ddyddio mewn cyfandaliad pan ydych yn cael eich rhyddhau o'r carchar. Pan gewch eich dyfarnu'n euog, ni allwch dderbyn cynnydd yn eich Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ac rydych yn colli eich hawl i fudd-daliadau ar gyfer salwch, anabledd neu famolaeth.

Pensiwn Ymddeol
Os nad ydych wedi cael eich dyfarnu'n euog eto, caiff Pensiwn Ymddeol ei atal pan ydych yn mynd i'r carchar. Mae hyn yn golygu na fyddwch yn cael yr arian pan ydych yn y carchar. Os na chewch eich dyfarnu'n euog am drosedd, byddwch yn derbyn yr holl daliadau mewn cyfandaliad pan gewch eich rhyddhau. Mae'n bosib mai'r opsiwn orau fyddai hawlio Pensiwn Ymddeol yn hwyrach. Gelwir hyn yn 'gohirio eich hawliad' – mynnwch gyngor am hyn. **Os dyfarnwyd chi'n euog**, rydych yn colli eich hawl i Bensiwn Ymddeol tan eich bod yn cael eich rhyddhau.

Budd-daliadau i bobl sy'n gweithio neu'n edrych am waith
P'un ai eich bod yn garcharor a ddyfarnwyd yn euog neu beidio, ni allwch gael Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Treth Gwaith. Os oes gennych bartner adref, gallech wirio p'un ai bod ef neu hi yn gallu cael y budd-daliadau.

Rhyddhad dros dro

Os ydych yn gweithio dedfryd carchar ond rydych wedi cael eich rhyddhau dros dro, fel arfer ni allwch gael budd-daliadau am yr amser yr ydych allan o'r carchar. Mae'n bosib y gall aelod o'ch teulu hawlio Grant Gofal yn y Gymuned ar gyfer costau byw am yr amser yr ydych adref.

Os ydych adref ar gyrffyw cadw i'r cartref

Os cawsoch eich rhyddhau o'r carchar ar dag, gallwch hawlio'r mwyafrif o fudd-daliadau yn y ffordd arferol. Os yw eich cyrffyw yn golygu na allwch hawlio Lwfans Ceisio Gwaith oherwydd mae'n cyfyngu ar yr amser yr ydych yn gallu gweithio neu'r llefydd y gallwch deithio iddynt, gallwch wneud cais i'r llys i newid amodau eich cyrffyw.

Os yw eich partner yn y carchar

Os yw eich partner yn y carchar, mae'n bwysig eich bod yn cael cyngor ynglŷn â'ch budd-daliadau cyn gynted â phosibl, yn enwedig os ydych yn byw yng nghartref y

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

teulu. Os mai eich partner oedd yn hawlio'r budd-daliadau o'r blaen, dylech chi hawlio cyn gynted â phosibl ar ôl i'ch partner fynd i'r carchar. Mae'n bosib cewch fath arall o gymorth ariannol, er enghraifft, cymorth i ymweld â'ch partner yn y carchar neu gymorth gyda chostau GIG.

Mae'n bosib y gallwch hawlio Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm os ydych yn sâl neu'n anabl, neu Gredyd Pensiwn. Os wnewch hyn, cewch eich ystyried fel person sengl neu unig riant. Gallech hawlio Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Treth Plant. Byddwch yn cael eich ystyried fel rhan o gwpwl os ydych yn hawlio, cyn belled â bod y gwahaniad yn rhywbeth dros dro.

Mae'n bosib y gallwch hawlio Budd-dal Tai. Cewch eich ystyried fel cwpwl os ydych yn cynllunio byw gyda'ch gilydd eto pan gaiff eich partner ei ryddhau o'r carchar ac os nad yw'n debygol bydd eich partner yn y carchar am fwy na 52 wythnos. Efallai y gallwch hawlio Budd-dal y Dreth Gyngor. Os ydych wedi gwahanu dros dro, byddwch yn cael eich ystyried fel cwpwl.

Os ydych yn gofalu am blentyn eich partner, gallwch gael Budd-dal Plant. Os yw eich partner wedi cael ei orchymyn gan yr Asiantaeth Cynnal Plant i dalu cynhaliaeth ar gyfer eich plant, ni fydd yn rhaid iddo dalu pan ydyw yn y carchar.

Budd-daliadau pan gewch eich rhyddhau

Os ydych ar fin gadael y carchar, mae'n bosib y cewch Grant Gofal yn y Gymuned neu Fenthyciad Argyfwng i'ch helpu gyda chostau angenrheidiol. Mae'n bosib y cewch grant rhyddhau o'r carchar i'ch helpu gyda'ch costau byw cyn i chi gael budd-daliadau.

Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, mae'n bosib y gallwch hawlio:

- cymhorthdal Incwm, Credyd Pensiwn neu Lwfans Ceisio Gwaith
- unrhyw fudd-daliadau a ôl-ddyddiwyd oherwydd na dalwyd y budd-daliadau pan oeddech yn y carchar
- budd-daliadau eraill, megis Pensiwn Ymddeol neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA). Mae'n bosib y byddai'n anodd cael ESA a dylech ofyn am gyngor arbenigol i'w hawlio
- Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor i'ch helpu i dalu costau'r cartref.

Os ydych yn bwriadu ceisio am Lwfans Ceisio Gwaith, bydd y Tîm Freshstart yn trefnu cyfweliad yn eich Canolfan Byd Gwaith lleol cyn gynted â'ch bod yn gadael y carchar. Gofynnwch i aelod o staff y carchar am fanylion cyswllt y Tîm Freshstart.

Yn Lloegr a Chymru os ydych yn 16 neu 17 oed pan gewch eich rhyddhau, cysylltwch â gwasanaeth gyrfaoedd eich awdurdod lleol neu swyddfa Gyrfa Cymru. Yn yr Alban, gofynnwch i'r carchar a oes yna wasanaethau cynnal allai fod ar gael i'ch helpu i ddychwelyd i'r gwaith. Gallwch gofrestru yma am waith neu hyfforddiant cyn i chi fynd i'r Ganolfan Byd Gwaith.

Bydd angen rhif yswiriant gwladol arnoch i hawlio budd-daliadau. Mynnwch gyngor gan CAB ynglŷn â sut i gael rhif os nad oes gennych un eisoes. Bydd angen i chi

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

brofi pwy ydych chi felly sicrhewch eich bod yn cadw ffurflen B79 a gewch gan y carchar pan gewch eich rhyddhau.

Fel arfer bydd angen cyfrif banc arnoch fel bod eich budd-daliadau yn gallu cael eu talu i mewn iddo. Mae'n bosib y byddwch yn gallu agor cyfrif banc arferol ond dylech fod yn gallu agor cyfrif banc sylfaenol. Os na allwch gael cyfrif banc, gofynnwch a all eich budd-daliadau gael eu talu i mewn i gyfrif cerdyn yn y swyddfa bost.

Cymorth ychwanegol

Y Canolfannau Cyngor ar Bopeth

Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys unrhyw fath o broblem. Gallan nhw eich helpu i wybod pa fudd-daliadau y gallwch eu cael a'ch helpu i'w hawlio.

Mae rhai Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhedeg sesiynau cyngor yn y carchar. Os ydych yn y carchar, holwch os ydynt yn cynnig y sesiynau hyn yn eich carchar chi. Os nad ydynt yn rhedeg sesiynau cyngor, mae'n bosib i chi ysgrifennu at eich CAB lleol gan esbonio eich problem. Gofynnwch i aelod o staff y carchar am gyfeiriad eich CAB lleol.

Os nad ydych yn y carchar, ac rydych chi am ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy'r e-bost, cliciwch ar CAB agosaf neu chwiliwch o dan C yn eich llyfr ffôn.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Carcharorion: llythyron
- Carcharorion a thai
- Carcharorion – cael cymorth ychwanegol
- Cymorth i Bobl sydd ar incwm isel – Cymhorthdal Incwm
- Budd-daliadau i bobl sy'n edrych am waith
- Pobl ifanc a budd-daliadau

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Yr Alban a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 20 Rhagfyr 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr